

## Arolygydd Ei Mawrhydi (AEM)

## Gwybodaeth i Ymgeiswyr



# Cyflwyniad

“ Mae'n swydd ddiddorol iawn, ac yn eithriadol o amrywiol. Mae gennych dîm o bobl o safon uchel, sy'n gyfeillgar a chefnogol, i'ch cynorthwyo. ”

## Ceri, AEM

Diolch am ddangos diddordeb yn rôl Arolygydd Ei Mawrhydi (AEM) yn Estyn. Mae rôl AEM yn un proffil uchel a heriol, ond mae hefyd yn rhoi llawer o foddhad.

Rydym yn chwilio am unigolyn llawn cymhelliant sydd â hanes cadarn o lwyddo ym maes addysg, yn ddelfrydol mewn rôl arwain, rheoli neu rôl arbenigol o fewn un neu fwy o sectorau. Bydd gennych y gallu i gymhwyso gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd mewn addysg a gwella ansawdd i ymuno â'n timau arolygu.

Rydym yn ceisio recriwtio unigolyn sydd â phrofiad addysgu sylweddol a hanes o arweinyddiaeth lwyddiannus o arwain mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

Arbenigedd	Gofynion o ran y Gymraeg
Ysgolion cynradd	Mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer rhai swyddi
Ysgolion uwchradd	Mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer rhai swyddi
Ysgolion arbennig / unedau cyfeirio disgyblion	Dymunol ond nid yn hanfodol

Mae **Statws Athro Cymwysedig (SAC)** yn **hanfodol** ar gyfer pob swydd.

Mae Estyn yn cynnal ei holl fusnes yn Gymraeg a Saesneg ac mae llawer o'r darparwyr addysg yr ydym yn gweithio gyda nhw ac yn eu harolygu yn ddwyieithog. Ar gyfer **rhai** o'r swyddi gweigion hyn, fel y nodwyd uchod, mae'n hanfodol ein bod yn penodi rhywun sy'n gallu defnyddio'i fedrau cyfathrebu yn effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unigolion sydd â phrofiad o arwain fel rheolwyr canol neu uwch reolwyr, a'r unigolion hynny sydd wedi cyfrannu at waith ar lefel leol neu genedlaethol yn y sector addysg a hyfforddiant. Bydd profiad arolygu yn fantais, ond nid yw'n hanfodol. Bydd profiad o weithio i awdurdod lleol neu gonsortiw m rhanbarthol yn fantais, ond nid yw'n hanfodol. Croesawn geisiadau gan unigolion sydd â phrofiad naill ai mewn ysgolion a gynhelir neu ysgolion annibynnol.

Os cewch eich penodi, byddwch yn gweithio yn eich sector chi, neu mewn maes arbenigol yn fwy cyffredinol ar draws agweddau a chyfnodau addysg a hyfforddiant eraill.

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am weithio i Estyn, gwybodaeth am y rôl a manylion am sut i wneud cais. Cyfeiriwch at y Ddogfen Arweiniad am fanylion ar sut i lenwi'ch cais.

Os ydych yn teimlo bod gennych y rhinweddau yr ydym yn chwilio amdanynt, yna edrychwch ymlaen yn fawr at gael eich cais.

Os hoffech drafod y swyddi ar gyfer AEM gydag aelod o'n tîm arweinyddiaeth, cysylltwch â'r Tîm Adnoddau Dynol, ar 029 2044 6336 neu dros yr e-bost at: [recriwtio@estyn.llyw.cymru](mailto:recriwtio@estyn.llyw.cymru).

# Ynglŷn ag Estyn

“ Os ydych yn frwdfrydig dros addysg ac yr hoffech gael eich herio, mae'r swydd hon yn rhoi llawer o foddhad. ”

Andrew, AEM

## Pwy ydym ni

Estyn yw'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel. Rydym yn arolygu ac yn adrodd ar ansawdd a safonau yn yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru, gan gynnwys:

- i ba raddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr ac yn cyfrannu at eu datblygiad a'u lles
- y safonau a gyflawnir
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth

Rydym yn annibynnol ar, ond yn cael ein hariannu gan, Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Rydym yn cyflogi tua 115 o staff ar hyn o bryd, sy'n cynnwys Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEM) a staff yn yr adran Gwasanaethau Corfforaethol.

## Beth rydym yn ei wneud

Mae gennym ystod eang o gyfrifoldebau arolygu ac adrodd statudol sy'n cynnwys arolygiadau o'r holl addysg a hyfforddiant a ariennir yn gyhoeddus ledled Cymru.

Rydym yn arolygu mewn partneriaeth â'r darparwr addysg, gyda ffocws cyffredinol ar anghenion dysgwyr. Mae hunanarfarnu, gan ddefnyddio arweiniad Estyn, yn rhan allweddol o broses sicrhau ansawdd darparwyr, sy'n nodi eu cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae'r timau arolygu yn adrodd am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

Rydym yn cyfrannu at ddatblygu polisi addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy ein gwaith arolygu a'n hadroddiadau cylch gwaith, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel ar themâu y cytunwyd arnynt yn y cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio â rhanddeiliaid pwysig eraill hefyd drwy gymryd rhan mewn gweithgorau polisi ac mewn fforymau rheolaidd.

I gael rhagor o wybodaeth am Estyn a'n gwaith, trowch at [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru) lle gwelir ein Cynllun Blynyddol a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf, (cliciwch ar 'Amdanom ni').

## Ein hamcanion strategol

Gwella ansawdd deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru, trwy wneud y canlynol yn fwy effeithiol:



Dyma yw dibenion craidd ein gwaith ac mae'n hanfodol bod pob un o'r rhain yn cael eu cyflwyno mor effeithiol ag y bo modd. I'r perwyl hwnnw, mae'r un mor bwysig bod Estyn yn dilyn ei egwyddorion cyflwyno.

## Ein hegwyddorion cyflawni

- Datblygu ymhellach yn 'sefydliad gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'
- Parhau i gydweithio ag arolygiaethau a rhanddeiliaid eraill i gefnogi gwelliant

## Ein gwerthoedd



1. Mae ein '[datganiad arweinyddiaeth](#)' ar tudalen 18 yn amlinellu'r ymddygiadau disgwylidig a'r ymagwedd at arwain a ddisgwylid gan ein staff.
2. Mae [Cod y Gwasanaeth Sifil](#) yn amlinellu gwerthoedd, safonau ymddygiad a hawliau a chyfrifoldebau y Gwasanaeth Sifil.

## Gweithio i Estyn



*Os yw rhywun yn ystyried dod i weithio i Estyn, bydden i'n dweud ei bod yn ffrainc fawr gweithio yma a bod gennych ymdeimlad gwych eich bod yn cael effaith gadarnhaol ar y system addysg gyfan yng Nghymru.*



Mark , AEM

Rydym yn ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth nid yn unig yn ein gweithgareddau arolygu, ond fel cyflogwr hefyd. Mae Estyn wedi ymrwmo i fod yn batrwm o gyflogwr rhagorol. Ein nod yw cyflawni hyn drwy barchu ein staff, gwrandio arnynt, a'u hannog i ddatblygu eu medrau a'u doniau. Rydym wedi ymrwmo i alluogi staff i ffynnu a rhoi o'u gorau trwy ddysgu unigol, dysgu mewn tîm a dysgu sefydliadol, a thrwy ddatblygiad parhaus. Mae Estyn yn cydnabod y daw pob unigolyn â medrau a phrofiad gwahanol gyda nhw pan fyddant yn gweithio i ni. Fel sefydliad, rydym yn cefnogi ac yn croesawu amrywiaeth ac yn parchu'r gwahaniaethau hyn.

Mae Estyn yn ymrwmo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i'w holl staff rannu'r ymrwymiad hwn.

### **Oriau gwaith, gwyliau blynyddol, buddion iechyd a lles**

Fel gweithiwr amser llawn parhaol, mae fel arfer yn ofynnol i chi weithio wythnos pum niwrnod (dydd Llun i ddydd Gwener) o 37 awr, ac eithrio amser cinio. Fodd bynnag, bydd natur gwaith Estyn yn gofyn bod unigolion yn gweithio'n hyblyg i gyflawni holl ofynion y rôl. Bydd yn ofynnol i chi weithio y tu hwnt i oriau swyddfa arferol, yn dibynnu ar y ddarpariaeth neu'r gwasanaeth sy'n cael ei (h)arolygu. Bydd angen teithio'n fynych ac aros dros nos fel rhan o'r rôl.

Bydd gennych hawl i lwfans gwyliau blynyddol o 31 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus/braint (sy'n cael eu cymryd ar adegau penodedig o'r flwyddyn yn gysylltiedig â gwyliau ysgol).

Rydym yn cynnig buddion teuluol addas, gan gynnwys gwyliau hael ar gyfer cyfnod mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth a rhienioli, ynghyd â darpariaethau ar gyfer gwyliau arbennig â thâl a heb dâl a seibiannau gyrfa.

Rydym wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd diogel, iach a chefnogol i'n gweithwyr, ac mae ein gwaith i hyrwyddo iechyd a lles ein cyflogeion wedi'i gydnabod yn ein llwyddiant i gyflawni'r Wobr Arian ar gyfer y Safon Iechyd Corfforaethol a'r dyfarniad Safon Aur ar gyfer Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae ein pecyn o fuddion lles yn cynnwys:

- Manteisio ar gynllun Gofal Plant, Di-dreth
- Archwiliadau iechyd blynyddol yn rhad ac am ddim
- Cymhorthdal ar gyfer gofal llygaid (ar gyfer offer sgriniau arddangos)
- Rhaglen Cymorth Cyflogeion sy'n darparu cwnsela, gwybodaeth a chyngor 24 awr yn rhad ac am ddim
- Mynediad i gymdeithasau gofal iechyd meddygol
- Mynediad at Gynllun Beicio i'r Gwaith

Fel Gwas Sifil bydd rhagor o fuddion a gwasanaethau ar gael i chi, gan gynnwys:

- Clwb Cymdeithasol y Gwasanaeth Sifil – Chwaraeon a Hamdden
- Cymdeithas Foduro'r Gwasanaeth Sifil
- Elusen ar gyfer Gweision Sifil
- Cymdeithas Yswiriant y Gwasanaeth Sifil
- Gofal Iechyd y Gwasanaeth Sifil

### **Cod y Gwasanaeth Sifil**

Fel Gwas Sifil, disgwylir i chi gadw at egwyddorion [Cod Ymddygiad y Gwasanaeth Sifil](#), sy'n amlinellu'r fframwaith cyfansoddiadol y mae pob Gwas Sifil yn gweithio oddi mewn iddo, a'r gwerthoedd y disgwylir iddynt eu cynnal.

### **Pensiwn**

Mae gan ein staff hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o'r adeg y byddwch yn dechrau ar eich penodiad. Gall dechreuwyr newydd ymuno naill ai â alpha, sef cynllun pensiwn galwedigaethol â buddion diffiniedig sydd wedi'i gysylltu â'r pris mynegai, neu Partnership, sef pensiwn rhanddeiliaid. Fel eich cyflogwr, bydd Estyn yn cyfrannu at ba gynllun pensiwn bynnag y penderfynwch ymuno ag ef. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar [wefan Pensiwn y Gwasanaeth Sifil](#), ac yn benodol, gallai'r [Cwestiynau Cyffredin i Ddarpar Aelodau](#) (gan gynnwys gwybodaeth ynghylch trosglwyddo buddion pensiwn) a'r [fideo byr am y cynllun](#) fod yn ddefnyddiol i chi.

### **Cyflog**

Yr ystod cyflog cyfredol ar gyfer Arolygwyr Ei Mawrhydi (Gradd 6) yw £61,090 - £71,475. Bydd y cyflog cychwynnol fel arfer ar y pwynt cyntaf yn y raddfa sydd uwchlaw eich cyflog presennol (o fewn yr ystod cyflog ar gyfer y rôl). Mae graddfeydd cyflog Estyn i'w gweld ar ein gwefan [www.estyn.gov.wales](http://www.estyn.gov.wales) (cliciwch ar 'Amdanom Ni', 'Gweithio i Estyn' a dewiswch 'Swyddi Gwag'). O dan y system gyflogau gyfredol, byddech fel arfer yn cyrraedd uchafswm y raddfa gyflogau o fewn pedair blynedd o ymuno ag Estyn.

### **Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol**

Mae Estyn yn Fuddsoddwr mewn Pobl (Aur) achrededig, sydd wedi ymrwmo i wella perfformiad a gwireddu ein hamcanion trwy reoli a datblygu ein pobl yn dda. Byddwn yn eich cefnogi gyda'ch anghenion dysgu a datblygu, gan gynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ac yn ystod eich mis cyntaf, byddwch yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr ar y sefydliad yn swyddfa Estyn yng Nghaerdydd ac yn elwa ar raglen fentora yn ystod eich blwyddyn gyntaf.

### **Lleoliad**

Mae ein prif swyddfa yng Nghaerdydd. Ar ôl i chi gwblhau'r rhaglen sefydlu yn y swyddfa, byddwch yn weithiwr cartref. Oherwydd bod ein gwaith yn cael ei wneud yng Nghymru yn bennaf, yn dibynnu ar leoliad eich cartref, efallai y byddwn yn eich neilltuo i leoliad tybiannol at ddiben yr hawl i gostau teithio a chynhaliadaeth a/neu yn cynnig cymorth ariannol i chi er mwyn adleoli.

Bydd y rôl yn gofyn i chi deithio ac aros dros nos gryn dipyn. Dylai ymgeiswyr felly feddu ar drwydded yrru gyfredol a defnydd o gar. Telir costau teithio a chynhaliaeth yn unol â chyfraddau Estyn.

### **Cymorth i adleoli**

Efallai y byddwn yn ystyried rhoi cymorth ariannol ar gyfer adleoli. Dylech wirio hyn cyn ymrwymo'ch hun i unrhyw gostau. Os bydd taliad yn cael ei wneud, bydd hynny ar ôl i chi ddechrau gweithio, a rhaid i chi gytuno i ad-dalu cyfran pe baech yn ymddiswyddo o fewn cyfnod penodedig.

### **Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor**

Bydd angen cael Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor gan y Cyfrin Gyngor cyn i ymgeiswyr llwyddiannus gael eu cadarnhau fel Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEM). Byddwn yn penodi ymgeiswyr llwyddiannus fel Darpar AEM hyd nes y ceir cymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor.

### **Ffilm Fer**

Gwylwch ein ffilm fer am sut beth yw bod yn arolygydd. Mae'r ffilm i'w gweld ar ein gwefan, [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru).

### **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)**

Mae'r swydd hon yn destun gwiriad datgelu manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

## Crynodeb o'r Rôl

“ *Yn ogystal ag arolygu, rydym ni'n gwneud gwaith ymchwil ar gyfer arolygon thematig, yn cynnal hyfforddiant, ac yn arwain mewn ymgynghoriadau ac ar grwpiau llywio.* ”

Michelle, AEM

Byddwch yn adrodd i Gyfarwyddwr Cynorthwyol a byddwch yn gweithio o fewn strwythur rheoli ar ffurf matrices, ar draws amrywiaeth o sectorau. Pan fyddwch yn gweithio ar arolygiadau a themâu trawstoriadol, efallai y byddwch yn ymgymryd â rôl arweiniol neu'n adrodd i gydweithiwr arall sy'n arwain. Bydd eich gwaith o ddydd i ddydd yn cynnwys:

- Arwain neu gyfrannu at waith arolygu, adrodd a chynghori, gan gynnwys arolygiadau darparwyr addysg unigol ac adolygiadau 'thematig' ehangach sy'n amrywio ar draws sampl o ddarpariaeth yng Nghymru
- Cyfrannu at lunio cyngor proffesiynol sydd â'r nod o lywio datblygiad polisi ym maes eich arbenigedd
- Ymgymryd â gwaith sy'n anelu at ddal a lledaenu'r arfer orau a welwn yn ein rhaglenni arolygu
- Gweithio yn unol â systemau a phrosesau cytûn a chyfrannu at dwf, datblygiad a newid sefydliadol yn Estyn
- Bod â rhan i'w chwarae mewn perthynas â sicrhau ansawdd a hyfforddiant Arolygwyr Ychwanegol
- Cyfrifoldeb am hyrwyddo a diogelu lles y plant a'r bobl ifanc yr ydych yn gyfrifol amdanynt, neu'n dod i gysylltiad â nhw



# Manyleb yr Unigolyn

“ Mae rôl AEM yn un unigryw; mae'n eich galluogi i ddefnyddio a datblygu'r medrau rydych chi eisoes wedi eu dysgu'n raddol trwy weithio yn y byd addysg. ”

Jane, AEM

## Gwybodaeth

- Dangos gwybodaeth yn gyfredol mewn un neu fwy o sectorau arolygu Estyn yn unol â gofynion y gwaith
- Deall strategaethau, polisïau, cynlluniau a mentrau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru a chadw i fyny â datblygiadau newydd
- Dangos tystiolaeth o awydd i wella addysg a hyfforddiant yng Nghymru a dealltwriaeth o rôl allweddol Estyn yn y genhadaeth hon
- Gwybod am, a chydymffurfio â, pholisïau a gweithdrefnau'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data, ac adrodd unrhyw bryderon i'r unigolyn priodol

## Medrau

- Cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol trwy fedrau cyfathrebu datblygedig ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gallu gwrandao'n effeithiol. Gallu ysgrifennu'n glir ac yn gryno, fel nad oes angen llawer o olygu, a gallu cadw at amserlenni tynn
- Dangos arweinyddiaeth sy'n cyfrannu at godi safonau cyflawniad a gwella ansawdd yn barhaus mewn darpariaeth addysg a/neu hyfforddiant
- Cyflwyno gwaith o safon uchel a gwella'n barhaus trwy ymateb yn briodol i adborth
- Ar gyfer rhai o'r swyddi hyn, mae'n hanfodol y gellir defnyddio medrau cyfathrebu yn effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg fel ei gilydd (fel y nodir ar dudalen 2)
- Gallu defnyddio amrywiaeth o feddalwedd a chaledwedd TG yn hyderus
- Yn gallu ac yn barod i weithio'n hyblyg a datblygu medrau newydd i ateb anghenion busnes Estyn
- Ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn ddidwyll â system Estyn o reoli perfformiad yn barhaus er mwyn gwella perfformiad personol

## Profiad

- Profiad ac arbenigedd arwain neu arbenigol yn un o feysydd arolygu Estyn
- Cyfrannu at ddatblygu a lleadaenu arfer dda mewn addysg a/neu hyfforddiant
- Llunio barnau sicr a gwneud penderfyniadau dibynadwy mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd beichus ac o dan bwysau amser
- Cynnwys cydweithwyr a darparwyr yn adeiladol mewn trafodaeth broffesiynol fel rhan o waith arolygu, cynghori a gwaith thematig, ynghyd â'u cynnwys mewn trafodaeth ynghylch datblygiad corfforaethol ehangach Estyn
- Modelu ymddygiad yn Estyn a phryd bynnag y bydd yn ymwneud â rhanddeiliaid allanol, mewn ffordd sy'n ehangu hygredded, uniondeb ac awdurdod Estyn
- Bydd profiad arolygu (fanteisiol ond nid yw'n hanfodol)

## Sut i wneud cais

Rhaid gwneud ceisiadau trwy ddefnyddio ein ffurflen gais. Cyfeiriwch at y Ddogfen Arweiniad cyn llenwi'r ffurflen gais. Mae'r dogfennau hyn hefyd ar gael o [www.estyn.gov.wales](http://www.estyn.gov.wales) (Cliciwch ar 'Amdanom Ni', a dewiswch 'Gweithio i Estyn', yna 'Swyddi Gwag').

Os ydych chi'n gwneud cais ar gyfer rôl lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, rhaid i chi ateb o leiaf un cwestiwn tystiolaeth ategol yn Gymraeg, ac un yn Saesneg.

Ni allwn ystyried ffurflenni cais sy'n hwyr neu'n anghyflawn. **Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y ffurflen gais yn cael ei llenwi'n llawn ac yn gywir a'i chyflwyno erbyn y dyddiad cau.**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **10:00yb dydd Llun, 28 Ionawr 2019**. Ni ellir ystyried ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad a'r amser hwnnw, am ba bynnag reswm.

Dylid dychwelyd eich cais a'ch dogfennau cysylltiedig dros yr e-bost at: [recrwtio@estyn.llyw.cymru](mailto:recrwtio@estyn.llyw.cymru) neu ar ffurf copi caled i:

**Adnoddau Dynol,  
Estyn,  
Llys Angor,  
Heol Keen,  
Caerdydd  
CF24 5JW**

### Ymholiadau Pellach

Ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r ymarfer recrwtio hwn, cysylltwch ag Adnoddau Dynol, ar 029 2044 6336 neu dros yr e-bost at: [recrwtio@estyn.llyw.cymru](mailto:recrwtio@estyn.llyw.cymru)

## Amserlen

Cyfeiriwch at y ddogfen arweiniad i gael manylion llawn am y broses ddethol.

<b>Dyddiad cau</b>	Dydd Llun, 28 Ionawr 2019 am 10:00yb
<b>Didoli cychwynnol</b>	Yr wythnos yn cychwyn 4 Chwefror 2019
<b>Asesiadau</b>	Yr wythnos yn cychwyn 11 Chwefror 2019
<b>Dyddiad dros dro Cyfweiliadau</b>	5-8 Mawrth 2019